# Cefnogi gyrrwr cerbyd wedi ei dynnu gan geffyl tra’n gyrru

SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys cefnogi gyrrwr cerbyd wedi ei dynnu gan geffyl tra'n gyrru. Mae'n cynnwys gweithredu fel cynorthwyydd i'r gyrrwr yn ystod y daith, monitro a hysbysu'r gyrrwr ynghylch gweithgareddau'r traffig a defnyddwyr eraill y ffordd a chymryd camau priodol yn unol â'r cyfarwyddiadau, gan helpu i drin cyffyrdd, a chadw rheolaeth dros y ceffyl(au) wrth aros.

Byddwch yn gallu addasu harneisiau lle y bo'n briodol.  Mae'r uned hon hefyd yn cynnwys gallu mynd ar gerbyd wedi ei dynnu gan geffyl ac oddi arno tra'i fod yn symud, a rhedeg o flaen y ceffyl(au).  Byddwch yn gallu gweithio gydag eraill fel rhan o'r criw gyrru.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am y cyfrifoldebau a'r dulliau o weithio

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. cynorthwyo i gynnal gwiriadau diogelwch fel mater o drefn cyn y daith
3. cefnogi gyrrwr y cerbyd wedi ei dynnu gan geffyl trwy fonitro a hysbysu ynghylch peryglon posibl a allai effeithio ar yrru'r ceffylau a'r cerbyd yn ddiogel
4. monitro adweithiau ceffylau i wrthrychau a sefyllfaoedd a hysbysu'r gyrrwr ynghylch y rhain
5. mynd ar gefn ac oddi ar gefn y cerbyd wedi ei dynnu gan geffyl fel y bo'n briodol yn ystod y daith
6. cynorthwyo i drin cyffyrdd a rhwystrau ar y ffordd
7. gwneud addasiadau i'r harnais a'r cerbyd wedi ei dynnu gan geffyl tra'n gyrru yn unol â'r cyfarwyddiadau
8. cynorthwyo i gadw rheolaeth dros geffylau tra'n aros
9. gwirio a gofalu am geffylau ar ôl eu defnyddio; hysbysu ynghylch unrhyw feysydd sydd yn peri pryder a gweithredu i gynnal lles y ceffylau, yn unol â'r cyfarwyddyd
10. gwirio'r harnais a'r cerbyd wedi ei dynnu gan geffyl, hysbysu ynghylch unrhyw fannau traul neu niwed, a gweithredu'n unol â'r cyfarwyddiadau
11. cynnal eich diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. eich rôl a'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â chefnogi'r gyrrwr yn ystod y daith
3. y gyfraith a'r codau ymarfer yn ymwneud â gyrru ceffylau harnais ar y ffordd fawr ac oddi arni
4. sut i wneud gwiriadau fel mater o drefn cyn y daith ar geffylau, harneisiau a cherbydau wedi eu tynnu gan geffylau
5. sut i fynd ar gefn ac oddi ar gefn cerbyd yn ddiogel tra'n symud
6. sut i gynhorthwy i drin cyffyrdd a symud allan i mewn i draffig
7. sut i gynorthwyo gyda thrin pyrth a rhwystrau
8. pwysigrwydd bod yn effro i weithgareddau defnyddwyr eraill y ffordd
9. pwysigrwydd gallu ffurfio barn am weithgareddau defnyddwyr eraill y ffordd mewn perthynas â'r cerbyd sy'n cael ei dynnu gan geffylau, ac i gyfathrebu'n effeithiol gyda'r gyrrwr
10. sut i gyfathrebu'n effeithiol gyda defnyddwyr eraill y ffordd
11. ymddygiad arferol ceffylau tra'n cael eu gyrru, a sut i gynorthwyo gyda'r gwaith o gadw rheolaeth dros geffylau yn unol â'r cyfarwyddiadau
12. sut i gadw rheolaeth effeithiol dros geffylau tra'n sefyll
13. sut i adnabod arwyddion straen neu aflonyddwch yn y ceffyl wedi ei harneisio tra'n cael ei yrru a thra'n sefyll
14. y camau i'w cymryd i leihau neu ddileu straen yn y ceffyl wedi ei harneisio, tra'n cael ei yrru a thra'n sefyll
15. y peryglon i geffylau, i chi ac i eraill a sut y gellir lleihau'r rhain
16. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Mae gweithgareddau gyrru'n cynnwys:

- ymarfer a hyfforddi
- hyfforddiant ac addysgu
- arddangos
- gyrru mewn cylch sioe
- ar y ffordd fawr
- oddi ar y ffordd fawr

Cefnogi gyrrwr cerbyd wedi ei dynnu gan geffyl tra'n gyrru

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq237 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; taith; cerbyd; mynd ar gefn; mynd oddi ar gefn; iechyd a lles anifeiliaid |